Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Glangwili**

**Ysbyty Cyffredinol Glangwili**
**Dolgwili Road**
**Caerfyrddin**
**SA31 2AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Final unpublished report



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/12/2022

Final unpublished report

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Meithrinfa Ddydd Glangwili

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Willow Daycare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 53 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Tachwedd 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

Final unpublished report

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd yr arolygiad hwn i ystyried rhai elfennau o Ofal a Datblygiad ac Arwain a Rheoli. Nid ydym felly wedi ystyried themâu yn llawn.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â'r staff ac yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd. Maent yn dangos mwynhad wrth chwarae.

Mae'r staff gofal yn darparu amrywiaeth addas o weithgareddau ac adnoddau sy'n diwallu galluoedd ac anghenion unigol y plant. Mae'r staff yn garedig tuag at y plant, yn enwedig pan maent yn drist. Nid yw'r staff bob amser yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu.

Mae'r safle yn ddiogel ac mae'r staff yn cadw'r amgylchedd yn lân ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Gwnaed gwelliannau pellach i'r amgylcheddau awyr agored a dan do er mwyn cael gwared ar risgiau posibl i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud newidiadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhagweithiol wrth roi newidiadau ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn gweithio tuag at fodloni gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau.

Final unpublished report

Final unpublished report

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Ymddengys bod y plant wedi setlo ac wedi ymlacio. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn cael cyfleoedd i wneud rhai dewisiadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, y plant sy'n penderfynu pa adnoddau yr hoffent chwarae â nhw a lle yr hoffent chwarae. Mae'r plant yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â'r staff oherwydd maent yn hapus i fynd atynt i gael tawelwch meddwl a chysur, yn ogystal â'u cynnwys wrth iddynt chwarae. Gwelsom blant yn mynd at aelodau o staff, yn eistedd ar eu gliniau ac yn gwenu wrth iddynt ymuno mewn gweithgareddau chwarae gyda'i gilydd.

Mae'r plant iau yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd ac yn rhannu adnoddau, er enghraifft rholio pêl nôl ac ymlaen i'w gilydd gydag aelod o staff yn cefnogi. Ar ôl cinio, gwelsom blentyn yn rhoi tedi bêr i blentyn arall. Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda ac yn dangos diddordeb wrth chwarae. Mae'r plant iau yn mwynhau defnyddio'r bwrdd darganfod, gan osod a thynnu eitemau mewn bocs pren.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Yn ystod amser cinio, mae'r plant yn gwenu, yn codi llaw ac yn cyfarch ei gilydd, *“Hiya!”.* Maent yn ymgysylltu â staff ac yn gwenu ar ei gilydd wrth chwarae.

Final unpublished report

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae bron pob aelod o'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r bwyd a ddarperir i'r plant yn iach ac yn gytbwys ac roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn cael cynnig dewis gwahanol os nad oeddent yn hoff o'r hyn a gynigiwyd. Roedd y staff yn goruchwylio'r plant bob amser yn ystod yr ymweliad. Mae'r rhan fwyaf o staff yn dilyn gweithdrefnau i leihau'r risg o haint yn ystod amser cinio ac adeg newid cewynnau, fodd bynnag gwelsom un aelod o staff yn chwythu ar fwyd plentyn. Ni ddilynwyd y weithdrefn newid cewynnau yn gywir bob tro ac nid yw'r staff yn golchi eu dwylo bob amser ar ôl helpu'r plant i chwythu eu trwynau ac ar ôl cael gwared ar hancesi papur. Mae'r staff yn defnyddio gel gwrthfacterol cyn helpu'r plant amser bwyd. Mae'r staff yn sicrhau bod dwylo'r plant yn cael eu glanhau cyn bwyd gyda chadachau unigol.

Mae rhyngweithio'r staff wedi gwella. Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud cynnydd wrth sicrhau bod staff addas yn cael eu defnyddio i ofalu am blant o dan ddwy oed. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r plant. Mae'r staff yn ofalgar tuag at y plant, gan roi maldod iddynt i dawelu eu meddwl a diwallu eu hanghenion  personol. Er enghraifft, roedd y staff yn tawelu meddyliau'r plant drwy ddod i lawr i'w lefel a siarad â nhw a'u cysuro drwy gyffwrdd eu llaw a dweud "*It's okay. We won't be long now okay?"* Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fodelau rôl da. Maent yn annog y plant iau i eistedd yn daclus a bod yn annibynnol yn ystod amser cinio, *"Are you ok or do you want some help?"* Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn hyrwyddo hunan-barch y plant. Maent yn canmol y plant yn ystod amser cinio pan fyddant yn bwydo eu hunain, *"Good job!*" Mae'r staff yn annog rhyngweithio cymdeithasol yn dda. Maent yn rhyngweithio'n hyfryd â'r plant ar ôl amser cinio, gan eistedd a chwarae pêl, gan eu hannog i gyfri i dri hefyd, "*Where's it gone? Are we ready? 1,2,3."*

Mae bron pob aelod o'r staff yn diwallu anghenion y plant. Gwelsom blentyn yn rhoi llyfr i aelod o staff. Ymatebodd yr aelod o staff yn syth drwy eistedd i lawr a darllen y llyfr i'r plentyn.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd i'r plant gael dewis rhydd o weithgareddau ac yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar ddewis o feysydd dysgu ac adnoddau yn annibynnol. Mae'r staff yn rhoi sylw i'r plant ac yn ofalgar tuag atynt ac yn rhoi maldod iddynt pan fyddant yn drist.

Final unpublished report.

Final unpublished report

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Maent wedi sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer ardaloedd. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen, yn ogystal â dilyn digwyddiadau neu pan fydd newidiadau'n cael eu rhoi ar waith i'r amgylchedd, er enghraifft yr ardal newid cewynnau. Yn dilyn yr ymweliad, cawsom dystiolaeth o'r newidiadau a wnaed i'r ardal newid cewynnau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod yr ardal newid babanod yn drefnus a bod y bwrdd newid bellach ar lefel isel. Mae'r bwrdd newid hefyd yn cynnwys strap i sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth gael eu newid. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau'n ddiweddar eu bod wedi cael gwared ar bob risg posibl i'r plant yn yr awyr agored a dan do yn yr adeilad. Er enghraifft, maent wedi diogelu'r ffens yn yr ardal awyr agored i'r plant o dan ddwy oed ac wedi addasu'r ardal newid cewynnau yn yr ardal i'r plant o dan ddwy oed hefyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu'r ardal awyr agored yn ddiweddar.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd addas i'r plant chwarae ac archwilio. Mae'r staff yn sicrhau bod yr adnoddau yn briodol i oedran a chamau datblygu'r plant. Mae dewis priodol o adnoddau ar gael ym mhob ystafell chwarae i blant gael gafael arnynt a dewis ohonynt yn annibynnol. Caiff y rhain eu storio'n briodol o fewn cyrraedd i'r plant.

.

Final unpublished report

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dangos ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a chyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithredu ac ymateb i'r maes i'w wella a gyhoeddwyd yn yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei brofi'n llawn yn ystod yr arolygiad hwn er mwyn caniatáu cyfnod safonol o amser i welliannau gael eu hymgorffori a chael effaith. Maent wedi cyfathrebu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn yr ymweliad arolygu diweddaraf ac maent wedi rhoi newidiadau i'r arferion ar waith yn ogystal â'r aelodau o staff a ddefnyddir yn yr ystafell i blant o dan ddwy oed. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod y staff yn cwblhau modiwlau hyfforddi priodol ar-lein er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o blant o dan ddwy oed. Fodd bynnag, mae angen gwneud datblygiadau pellach mewn perthynas ag aelodau o staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith, er enghraifft hylendid. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i AGC am unrhyw newidiadau a roddir ar waith.

Mae'r bobl sy'n rheged y lleoliad yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r arferion cyfredol. Maent hefyd yn sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o newidiadau a chaiff prociau gweledol eu harddangos o amgylch y feithrinfa i'w hatgoffa. Cofnodir digwyddiadau a damweiniau ac mae staff/ arweinwyr a rhieni/gwarcheidwaid yn eu llofnodi. Caiff yr holl wybodaeth ofynnol ei rhannu â'r bobl berthnasol, fodd bynnag nid yw hyn yn cael ei wneud yn amserol bob amser. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y meysydd pryder yn y feithrinfa yn cael eu hunioni'n amserol, er enghraifft newidiadau amgylcheddol.

Final unpublished report

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau hysbysadwy yn cael eu cyflwyno i AGC mewn modd amserol

A2: Sicrhau bod y staff yn dilyn yr holl bolisïau a gweithdrefnau

A3: Gwella arferion hylendid ymhellach

Final unpublished report

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

Final Unpublished report

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Nid yw'r staff bob amser yn meddu ar gymwysterau na phrofiad addas ar gyfer ystod oedran y plant y maent yn gofalu amdanynt a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y gofal a ddarperir weithiau. | Adolygwyd |

Final unpublished report

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/02/2023

Final unpublished report